# Cofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol

## Caniatâd y claf i rannu gwybodaeth

Mae arbenigwyr fasgwlaidd yn dymuno casglu gwybodaeth am eich llawdriniaeth a'ch gofal ysbyty. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei storio'n ddiogel yn y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol, a sefydlir i fonitro a gwella gofal cleifion. Diben y Gofrestr yw casglu ychydig o fanylion personol amdanoch chi - eich rhif GIG, eich dyddiad geni a'ch cod post. Mae angen y manylion personol hyn ar gyfer y Gofrestr er mwyn ein helpu i gysylltu gwybodaeth y Gofrestr a ddarperir gan eich arbenigwr â chronfeydd data iechyd cenedlaethol eraill.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio mewn amgylchedd diogel a bydd ar gael i staff priodol yn unig. Mae'r Gofrestr yn cydymffurfio â'r rheolau cyfrinachedd a sefydlwyd gan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 (GDPR), Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu gydag unrhyw un y tu allan i'r GIG. Ar ôl i'r data gael ei wneud yn anhysbys (fel na all pobl gael eu hadnabod), gellir ei rannu ar gyfer ymchwil.

Mae angen eich caniatâd arnom i gadw gwybodaeth a all eich adnabod chi. Ticiwch y blychau priodol isod i gadarnhau a ydych chi'n cytuno i gasglu eich gwybodaeth bersonol ai peidio, a llofnodi'r ffurflen hon.

**Y fi yw'r:** ☐ Claf ☐ Gwarcheidwad y Claf (*ticiwch fel y bo'n briodol*)

☐ **Rwy'n cadarnhau fy mod yn deall y datganiad uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau a derbyn atebion boddhaol.**

☐ **Rwy'n rhoi caniatâd i'm harbenigwr rannu gwybodaeth â'r Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol a all fy adnabod at ddibenion monitro a gwella gofal cleifion. Rwy'n deall y gallaf dynnu fy nghaniatâd yn ôl ar unrhyw adeg heb roi unrhyw resymau.**

☐ **Nid wyf yn rhoi caniatâd i'm harbenigwr rannu gwybodaeth â'r Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol sy'n fy adnabod i yn bersonol.**

**Llofnod……………………………………………….** **Dyddiad…………….**

---

<u>I'w gwblhau gan y Person sy'n gofyn am ganiatâd</u>: Rwy'n cadarnhau fy mod wedi trafod casglu gwybodaeth bersonol a'i storio ar y Gofrestr Fasgwlaidd Genedlaethol.

Llofnod………………………………………………. Dyddiad…………………

Rhif GIG y claf …………………………….

Registered charity no: 212808 (RCS), 110276 (Vascular Society), 1127049 (HQIP)